

DOLEN Y TAB 127

28 / 29 Hydref 2022

Oedfa Sul 30 Hydref am 11

Y Parchedig Gethin Rhys gydag
Ann Price yn llywyddu ac Eleri yn cyfeilio

YR OEDFAON NESAF

Tachwedd

- 6 Y Parchedig Robin Samuel gyda Nia Williams
- 13 Y Parchedig Aled Edwards gyda
Huw Roberts, Creigiau
- 20 Sul Diogelu dan arweiniad Emlyn Davies
- 27 Rhiannon Humphreys a'r Teulu i'w dilyn gan
y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

Rhagfyr

- 4 Geraint Rees
- 11 Y Parchedig Aled Edwards
- 18 Oedfa Nadolig plant yr Ysgol Sul a'r
Twmiaid

Hefyd ddydd Sul 30 Hydref

12.00 Radio Cymru

Oedfa dan arweiniad James Tout, Bangor

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol – Herio Hiliaeth

Ar ddiwedd Mis Hanes Pobl Ddu, cawn glywed profiadau uniongyrchol o'r hiliaeth sy'n gallu codi ei ben yng nghefn gwlad Cymru, a'r dewrder i herio creulondeb a gwawd.

E-fwletin Cristnogaeth 21

www.cristnogaeth21.cymru

CYLCH CADWGAN

HENO (Nos Wener, 28 Hydref) am 8
Noson yng nghwmni Delwyn Siôn

Festri Bethlehem, Gwaelod y Garth

Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru



CASGLIAD YR AMLENNI BROWN

Bydd casgliad yr amlenni brown 2022 yn cau ddiwedd Rhagfyr, sy'n gadael dau fis i ni gyfrannu at elusennau Cwtch, Gofalwyr Ifanc Cymru, Cymorth i Ferched Cymru, Carmel Blaenllechau, a 2Wish.

Mae pedair o'r rhain yn hollol gyfarwydd i ni, a 2Wish, a ychwanegwyd eleni, wedi ei sefydlu gan Rhian Mannings o Feisgyn i ddarparu cefnogaeth di-oed i deuluoedd sy'n galaru ar ôl marwolaeth disymwth plentyn, wedi iddi hi a'i phlant ddiweddef profedigaeth erchyll o golli mab bach blwydd oed, a'i gŵr, o fewn dyddiau i'w gilydd yn 2012.

Bydd angen dewis elusennau ar gyfer 2023 i'w cyflwyno i Fwrdd y Cyfarwyddwyr cyn y cyfarfod cyffredinol fore Sul 27 Tachwedd, a byddai'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn croesawu eich awgrymiadau.

Diolch yn fawr i chi i gyd am eich cefnogaeth hael a diflino.

ann.pentyrch@btinternet.com
johnllewt@hotmail.com

Ffurflenni Enwebu Aelodau'r Bwrdd

Cofiwch mai dyddiad cau enwebu aelodau newydd i'r Bwrdd yw **dydd Llun 14 Tachwedd**. Gellir casglu copïau caled o'r ffurflen enwebu o'r hysbysfyrdau yng nghyntedd y capel o fore Sul yma ymlaen.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 8 Tachwedd. Os oes gennych fater yr hoffech ei godi yn y cyfarfod, rhowch wybod i'r Ysgrifennydd erbyn nos Lun 7 Tachwedd: gehpengwern@yahoo.co.uk; 01443 225205; Neges Testun: 07710 237327.

DIRNAD DONIAU



Yng nghwrdd chwarter
Cyfundeb Dwyrain Morgannwg
yng Nghapel Minny Street nos
Fercher traddodwyd anerchiad
meistrolgar gyda neges amserol,
llawn gobaith, ond eto'n un

ymarferol am ddyfodol ein heglwysi gan
lywydd presennol Undeb yr Annibynwyr, sef y
Parchedig Beti-Wyn James.

Roedd datganiad agoriadol ei anerchiad, sef bod ein
heglwysi ar drothwy cyfnod newydd cyffrous, mor
annisgwyl o feddwl am yr adroddiadau cyson ar y
cyfryngau am achosion yn cau a maint cynulleidfaoedd
capeli Cymru'n crebachu, a'r lleihad yn nifer y
gweinidogion sydd ar gael i wasanaethu'r eglwysi.
Ond pwysleisiodd y Llywydd nad trwy gyfrif nifer yr
aelodau ar y llyfrau, neu'r pennau mewn oedfa, y mae
mesur cryfder eglwys, a rhaid i ni bellach dderbyn bod
dyddiau'r drefn weinidogaethol draddodiadol yn
prysur ddiplannu o'r tir.

O ble felly y daw'r cyfiawnhad am yr optimistiaeth am
ddyfodol cyffrous? Yr ateb a roddodd oedd creu trefn
weinidogaethol amgen wedi ei seilio ar harneisio'r
doniau ysbrydol sydd ar gael o fewn ein heglwysi yn
hytrach na hiraethu am yr hyn oedd gennym yn y
dyddiau a fu. Yn hynny o beth byddai'n cynulleidfaoedd
yn ymdebygu i drefn yr eglwys fore yn hytrach na'r
gyfundrefn a wasanaethodd ein heglwysi yn y
gorffennol.

Y cam cyntaf a'r anoddaf yw dirnad y doniau sydd ar
gael ymhlith yr aelodau ac yna pricio'r unigolion
hynny i gofleidio'r weledigaeth newydd. Aeth yn ei
blaen i gyflwyno rhestr o amodau ymarferol fyddai'n
hwyluso cyflawni hyn, megis adeiladu perthynas dda
ymhlith yr aelodau; llunio gweledigaeth glir a
chadarnhaol o'r eglwys; ildio'r awenau traddodiadol;
bod yn ddewr a chefnogi aelodau i fagu hyder; nid
gofyn am ffafr i lenwi bwlch ond galw pobl i
ddefnyddio a datblygu eu doniau; cymryd camau bach;
rhoi anogaeth i ddal ati; derbyn na fydd yr eglwys yn
berffaith. I gloi'r anerchiad dyfynnodd o lythyr cyntaf
Pedr (Pennod 4 adnod 10 ac 11) :

*'Yn ôl fel y derbyniodd pob un ohonoch ddawn,
defnyddiwch eich dawn yng ngwasanaeth eich gilydd, fel
gweinyddwyr da ar amryfal ras Duw... Os yw'n
gwasanaethu, gwasanaethed fel un sydd wedi derbyn o'r
nerth y mae Duw yn ei gyfrannu. Yr amcan ym mhob dim
yw gogoneddu Duw trwy Iesu Grist...*

Gresyn nad oedd amser ar y noson i wrando ar yr
ymateb i'w sylwadau, yn arbennig gan y gweinidogion
oedd yn bresennol, a hefyd i glywed gan gynrychiolwyr
yr eglwysi hynny sydd wedi bod yn dilyn llwybr amgen
i'r drefn weinidogaethu draddodiadol ers blynyddoedd.

DILLAD PLANT!

Ni'n casglu dillad plant ar gyfer elusennau lleol

Pob math o ddillad - 10-18 oed
Dillad glaw, cotiau cynnes
a wellies - 4 - 18 oed

Mi fydd y Capel neu'r Ganolfan ar agor
yn ystod y bore coffi Dydd Mawrth,
Gwasnaethau Dydd Sul, ynghyd a Bore Iau a
Sadwrn

Casglu trwy mis Hydref!



Merched y Tab

Dydd Gwener 18fed Tachwedd

Coleg Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd

1.15 pm Cyngerdd Prynhawn

Ymgynnull am 12.00 i cael paned

Capel y Tabernacl Cyf.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bore Sul 27 Tachwedd 2022

Llogi'r Capel / Ganolfan

E-bostiwrch

gehpengwern@yahoo.co.uk

Neges Testun

07710 237327

Ffonia

01433 225205

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01433 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk